Enw

DARLLENWCH
Mathew 2: 9-12

*Mae'r stori hon yn sôn am:*
**Y Doethion yn dilyn y seren ac yn dod o hyd i Iesu.**

## Stori 3 Y Doethion a Iesu

Wedi i'r Doethion adael Herod, fe welon nhw'r seren eto. Arweiniodd y seren nhw i'r union fan lle'r oedd Iesu! Roedd y Doethion yn hapus dros ben pan welon nhw'r seren. Cyn hir, bydden nhw'n cyfarfod â'r Un roedden nhw wedi teithio mor bell i'w weld!

**Sut oedd y Doethion yn teimlo pan welon nhw'r seren?**

**Rhowch linell drwy'r atebion anghywir.**

**trist blinedig hapus**

Cyn hir, cyrhaeddodd y Doethion ym Methlehem a dyma nhw'n gweld y tŷ lle'r oedd Iesu, Joseff a Mair yn aros. Pan welsant Iesu, dyma nhw'n syrthio ar eu gliniau ac yn

**Ei addoli Ef.**

**Lliwiwch y geiriau**

Daeth y Doethion â thair anrheg i Iesu - aur, thys a myrr. Roedd y rhain yn anrhegion drud - fel y rhai y bydd brenhinoedd yn eu cael. Gwyddai'r Doethion nad oedd Iesu yn blentyn cyffredin, felly roedd Ef yn haeddu'r anrhegion gorau posibl.

Ar ôl aros rhyw ychydig, roedd hi'n bryd iddyn nhw adael. Cofiodd y Doethion fod Herod wedi gofyn iddyn nhw fynd nôl i Jerwsalem. Ond, roedd Duw yn gwybod fod Herod eisiau lladd Iesu.

Dywedodd Duw wrth y Doethion mewn breuddwyd am fynd adref yn syth ac i beidio â dweud wrth Herod ble'r oedd Iesu.

Felly, i ffwrdd â nhw gan foliannu Duw am eu bod, o'r diwedd, wedi gweld Iesu, y Brenin newydd!